



Mae potiau plant y pentref sydd wedi cael ei noddi gan y **Cyngor Cymuned**, yn ferw o liw eto eleni. Diolch i **Eurwyn Roberts** am ddarparu a phlannu'r planhigion, a diolch i **Fwyty a Gwesty Castell Elen** am eu haelioni yn talu amdanyn nhw, ac i **Val, Ali a Merle** am dyfrio y planhigion.

Sioe Arddio Ynys Môn

Roedd Mr. Eurwyn Roberts yn llwyddiannus unwaith eto yn Sioe Sir Fôn gan ennill y 'Wobr Aur Fawr' am ei arddangosfa flodau.
Reit dda Eurwyn.

NOSON GOFFI CAPEL MORIAH

Yn Ffestri'r Capel
Dydd Gwener, Hydref yr 21ain 6:30yh
Dewch i gefnogi

Siôn a Siân **BINGO !**
yr 17^{eg} o Hydref - Y Ganolfan - 7.00yh
Raffl Llundiaeth Ysgafn

Sefydliad y Merched Dolwyddelan

Ymunwch â ni i ddathlu pen blwydd y gangen yn 70.
Cyfarfod agored yn y Ganolfan ar ddydd Gwener, y 7^{fed} o Hydref, o 6.00yh tan 8.30yh. Fe allwch chi bori drwy ein llyfr lloffion hardd (a ddaeth yn ail drwy Gymru gyfan adeg dathlu canmlwyddiant y sefydliad), hel atgofion wrth edrych ar luniau a mwynhau lluniaeth ysgafn ac ymddiddan cyfeillion.



Croeso cynnes i chi i gyd.